MAWRTH 2012

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PROSIECT PARTH CADWRAETH MOROL, CYMRU

# CYLCHLYTHYR 4

www.cymru.gov.uk

Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Parth Cadwraeth Morol Cymru – prosiect a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i nodi ac yn y pen draw, i ddynodi nifer fechan o Barthau Cadwraeth Morol â Lefel Gwarchodaeth Uchel.

## YR YMGYNGHORIAD CYNTAF - OPSIYNAU AR GYFER SAFLEOEDD POSIBL

Mae'r broses dewis safleoedd yn cynnwys cyfres o ymgynghoriadau - 3 i gyd. Mae hyn yn elfen bwysig o'r broses yng Nghymru er mwyn sicrhau bod yr opsiynau ar gyfer safleoedd posibl yn cael eu llywio a'u mireinio gan farn amrywiaeth eang o bobl.

Rydym yn bwriadu dechrau'r ymgynghoriad cyntaf yn ystod yr wythnos yn dechrau 16 Ebrill 2012 - dyma Gam 4 y broses fel y'i nodir trosodd. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn para am 12 wythnos, a byddwn yn gofyn i chi am eich barn am yr opsiynau ar gyfer y safleoedd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i lywio proses o werthuso costau a manteision pob un o'r safleoedd ac i'n cynorthwyo i benderfynu pa safleoedd y dylem eu datblygu.

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyntaf, byddwn trefnu cyfarfodydd ledled Cymru er mwyn casglu barn a gwybodaeth am yr opsiynau ar gyfer safleoedd posibl - bydd rhagor o wybodaeth i'w gael arnynt yn y man.

Yn y cyfamser, rydym wedi cyhoeddi crynodebau o'r nodiadau o gyfarfodydd y Gŵp Cynghori Technegol a'r Grŵp Llywio ar wefan y Llywodraeth. Os hoffech eu gweld, dilynwch y ddolen cymru.gov.uk/morol

## AMSERLEN

Trosodd, mae copi o amserlen ddiwygiedig y prosiect.

## RHAGOR O WYBODAETH

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y prosiect hwn ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/marinefisheries/conservation/protected/conservationzones/project/?lang=cy

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch Dîm Morol Llywodraeth Cymru: marine@cymru.gsi.gov.uk

**AMLINELLIAD O'R BROSES AC AMSERLEN DDIWYGIEDIG**

| BETH | PRYD |
|---|---|
| **CAM 1 – Nodi'r Safleoedd Ffocws**<br>Wedi'u nodi gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gan ddefnyddio'r canllawiau a'r system asesu ecolegol y cytunwyd arnynt | Ionawr 2011 - Mawrth 2011 |
| **CAM 2 – Nodi'r Safleoedd Posibl**<br>Wedi'u nodi gan y Grŵp Cynghori Technegol o'r Safleoedd Ffocws gan ddefnyddio'r canllawiau a'r system asesu y cytunwyd arnynt | Mawrth 2011 |
| **CAM 3 – Datblygu cam cyntaf cadarnhau enwau'r Safleoedd Posibl**<br>Y Safleoedd Posibl yn cael eu hystyried ac o bosib eu mireinio gan y Grŵp Cynghori Technegol ac yna'r Grŵp Llywio yn sgil ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac ymarferol | Ebrill 2011 - Mawrth 2012 |
| **CAM 4 – Ymgynghori ar gam cyntaf cadarnhau enwau'r Safleoedd Posibl**<br>Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos i gasglu barn pobl am yr opsiynau ar gyfer y safleoedd | Ebrill 2012 - Gorffennaf 2012 |
| **CAM 5 – Datblygu cam cyntaf cadarnhau enwau'r Safleoedd Posibl**<br>Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod Cam 4 yn cael ei defnyddio gan y Grŵp Cynghori Technegol a'r Grŵp Llywio i lywio a mireinio cam nesaf cadarnhau enwau'r safleoedd | Awst 2012 - Rhagfyr 2012 |
| **CAM 6 – Ymgynghori ail gam cadarnhau enwau'r Safleoedd Posibl**<br>Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos i gasglu barn am yr opsiynau ar gyfer y safleoedd | Ionawr 2013 - Ebrill 2013 |
| **CAM 7 – Argymell Safleoedd Arfaethedig i Weinidogion Cymru**<br>Bydd y Grŵp Cynghori Technegol a'r Grŵp Llywio'n defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod Cam 6 i lywio'r argymhellion terfynol i Weinidogion Cymru | Mai 2013 - Medi 2013 |
| **CAM 8 – Ymgynghori ffurfiol ar Safleoedd Arfaethedig**<br>Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad ffurfiol dros gyfnod o 12 wythnos ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn cytuno â hynny | Gaeaf 2013 |
| **CAM 9 – Proses ddynodi**<br>Yn amodol ar ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori ffurfiol bydd Gweinidogion Cymru yn dynodi'r Parthau Cadwraeth Morol | Erbyn Gwanwyn 2014 |

© Hawlfraint y Goron 2012 WG15199